



Ordinhad 4 – Y Senedd

4.1 Cyfansoddiad

4.1.1 Bydd y Senedd yn cynnwys:

- (i) Yr Is-ganghellor a fydd yn Gadeirydd.
- (ii) Y Profost
- (iii) Y Dirprwy Is-gangellorion.
- (iv) Athrawon eraill y Brifysgol - a gyflogir gan y Brifysgol.
- (v) Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion Byrddau'r Pwyllgor Ansawdd Dysgu ac Addysgu a Deoniaid Cysylltiol ar gyfer Addysg y Cyfadrannau.
- (vi) Pedwar ar ddeg cynrychiolydd wedi'u hethol o blith y staff nad ydynt yn athrawon, a ddewisir fel y bydd o leiaf bedwar aelod yn cynrychioli pob un o'r Cyfadrannau.
- (vii) Deiliaid y fath swyddi eraill yn y Brifysgol y gall y Cyngor eu cymeradwyo o bryd i'w gilydd ar sail argymhelliad y Senedd.
- (viii) Wyth myfyriwr i'w penodi yn unol â rheoliadau a wneir o bryd i'w gilydd gan y Senedd.

4.1.2 Caiff aelodau'r Senedd y cyfeirir atynt yng nghymal (vi) uchod eu hethol yn y fath fodd y gall y Senedd ei bennu.

4.1.3 Gall aelod o'r Senedd ymddiswyddo unrhyw bryd drwy ysgrifennu at Ysgrifennydd y Senedd.

4.2 Pwerau'r Senedd

Yn amodol ar ddarpariaethau'r Siarter a'r Statudau, bydd gan y Senedd y pwerau a'r swyddogaethau canlynol y gall eu dirprwyo i'r Byrddau Academaidd ac i'r pwyllgorau a sefydlir ganddi:

- (i) Goruchwylio a rheoleiddio, hyfforddiant, addysgu ac ymchwil yn y Brifysgol a'r arholiadau a'r asesiadau a gynhelir gan y Brifysgol.

- (ii) Rheoleiddio derbyn unigolion i gyrsiau astudio yn y Brifysgol.
- (iii) Cyflwyno a dyfarnu Graddau, Diplomâu ac anrhydeddau academaidd eraill i unigolion a fydd wedi dilyn cwrs astudio a gymeradwywyd gan y Brifysgol ac a fydd wedi pasio'r arholiadau neu'r profion eraill ac wedi bodloni'r holl ofynion eraill a bennwyd gan y Brifysgol.
- (iv) Ar sail rheswm da, fel y'i diffinnir gan y Rheoliadau, amddifadu unigolion o unrhyw Raddau, Diplomâu, Tystysgrifau neu anrhydeddau neu ddyfarniadau eraill a gyflwynwyd neu a ddyfarnwyd iddynt gan y Brifysgol. Ni chaiff Graddau Er Anrhydedd a Dyfarniadau Er Anrhydedd eraill eu tynnu yn ôl ond ar sail argymhelliad y Cyngor a'r Senedd ar y cyd.
- (v) Derbyn adroddiadau cyfnodol, o leiaf bob blwyddyn, ynghylch trefniadau arholi allanol.
- (vi) Cynghori'r Cyngor ar faterion sy'n ymwneud â lles myfyrwyr y Brifysgol.
- (vii) Rheoleiddio disgyblu myfyrwyr y Brifysgol parthed materion academaidd a materion eraill.
- (viii) Rheoleiddio cwynion ac apeliadau myfyrwyr parthed materion academaidd a materion eraill.
- (ix) Rheoleiddio'r gweithdrefnau ar gyfer sefydlu a dyfarnu Cymrodoriaethau, Ysgoloriaethau, Ysgoloriaethau Ymchwil, Bwrsariaethau a Gwobrau a derbyn adroddiad blynyddol ar y dyfarniadau a wnaed.
- (x) Cyflwyno argymhellion i'r Cyngor ar strwythur y flwyddyn academaidd.
- (xi) Rheoleiddio'r weithdrefn ar gyfer Cynulliadau Graddio a Seremonïau Gwobrwyo eraill y Brifysgol.
- (xii) Rheoleiddio'r wisg academaidd i'w gwisgo gan swyddogion ac aelodau amrywiol y Brifysgol.
- (xiii) Penodi aelodau'r Senedd i fod yn aelodau'r Llys a'r Cyngor.
- (xiv) Llenwi swyddi gwag ymhlith aelodaeth y Senedd.
- (xv) Cymeradwyo'r agweddau academaidd ar gysylltiadau o fewn y Brifysgol, neu â sefydliadau neu fudiadau eraill neu adrannau neu ganghennau'r rhain, er budd y Brifysgol ym maes addysgu ac ymchwil.
- (xvi) Cymeradwyo, diwygio neu gyfeirio'n ôl at sylw'r corff priodol unrhyw fater academaidd sy'n ymwneud ag addysgu ac ymchwil.
- (xvi) Gofyn i unrhyw gorff priodol ddarparu adroddiadau ar faterion academaidd sy'n ymwneud ag addysgu ac ymchwil.
- (xviii) Gwneud sylwadau ar newidiadau i'r Statudau a gynigir gan y Cyngor.
- (xix) Cynghori'r Cyngor ar ddatblygiad tymor hir y Brifysgol.
- (xx) Gwneud argymhellion i'r Cyngor ar unrhyw fater academaidd.
- (xxi) Adrodd ar unrhyw fater a gyfeirir at y Senedd gan y Cyngor.
- (xxii) Trafod unrhyw fater bynnag sy'n ymwneud â'r Brifysgol a datgan barn ar y cyfryw fater.
- (xxiii) Cyflawni'r fath swyddogaethau eraill y bydd y Cyngor yn eu hawdurdodi.